Polisi Dwyieithog Clwb Rygbi Llangefni

Llangefni Rugby Club Bi-Lingual Policy

1. Diben

Mae Clwb Rygbi Llangefni yn ymroddedig i hyrwyddo'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg er mwyn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol ac hunaniaeth ieithyddol ein cymuned. Mae'r polisi hwn yn sicrhau cydnabyddiaeth ac hygyrchedd cyfartal i'r ddwy iaith ym mhob gweithgaredd y clwb.

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl chwaraewyr, hyfforddwyr, staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, a chyfathrebiadau allanol y clwb.

3. Defnydd Iaith

- **Cyfathrebu Mewnol:** Bydd dogfennau swyddogol, cofnodion cyfarfodydd, a hysbysiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- **Cyfathrebu Cyhoeddus**: Bydd cynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefan, arwyddion, a deunydd hyrwyddo yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
- **Cyhoeddiadau a Sylwebaeth Gêm:** Lle bo'n bosibl, bydd cyhoeddiadau a sylwebaeth gemau yn cynnwys y ddwy iaith.
- **Hyfforddiant a Datblygiad:** Bydd sesiynau hyfforddi a deunyddiau dysgu'n cynnwys termau Cymraeg lle bo'n ymarferol, gan hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith chwaraewyr a staff.
- **Partneriaethau:** Mi fyddwn ni'n gweithio gyda darparwyr addysg, mentrau cymdeithasol a busnesau lleol er mwyn annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

4. Ymgysylltu â'r Gymuned a Hyrwyddo'r Gymraeg

Bydd y clwb yn cydweithio ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i hyrwyddo addysg a defnydd o'r Gymraeg.

Bydd digwyddiadau a gweithdai a drefnir gan y clwb yn cynnwys gweithgareddau Cymraeg i annog cyfranogiad y gymuned.

Bydd chwaraewyr a staff sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan mewn mentora ac yn cefnogi unigolion sydd â diddordeb mewn dysgu'r iaith.

Bydd y clwb yn meithrin partneriaethau â sefydliadau iaith Gymraeg er mwyn cryfhau ymdrechion dwyieithog y clwb.

5. Cynhwysiant a Chymorth

- Bydd y clwb yn annog ac yn cefnogi chwaraewyr, hyfforddwyr, a staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

- Bydd aelodau sy'n siarad Cymraeg ar gael i helpu'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith i ddysgu ymadroddion allweddol.

- Bydd adnoddau ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn cael eu darparu lle bo'n ymarferol.

6. Cydymffurfiaeth ac Adolygu

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.

- Bydd y clwb yn croesawu adborth er mwyn gwella'r ymdrechion dwyieithog.

Trwy fabwysiadu'r polisi hwn, mae Clwb Rygbi Llangefni yn coleddu ei hunaniaeth Gymreig wrth sicrhau cynhwysiant i bob aelod ac yn cyfrannu'n weithredol at hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.

Polisi Dwyieithog Clwb Rygbi Llangefni

Llangefni Rugby Club Bi-Lingual Policy

1. Purpose

Llangefni Rugby Club is committed to promoting the Welsh language alongside English to reflect the cultural heritage and linguistic identity of our community. This policy ensures equal recognition and accessibility for both languages in all club activities.

2. Scope

This policy applies to all players, coaches, staff, volunteers, supporters, and external communications of the club.

3. Language Use

Internal Communication: Official documents, meeting minutes, and notices will be available in both Welsh and English.

- **Public Communication**: Social media, website content, signage, and promotional materials will be presented bilingually.
- **Match Announcements & Commentary**: Where possible, match announcements and commentary will include both Welsh and English.
- **Training & Development:** Coaching sessions and training materials will integrate Welsh terminology where practical, fostering bilingualism among players and staff.
- **Partnerships:** We will work with education providers, social enterprises and local business to promote the use of the Welsh language.

4. Community Engagement & Welsh Language Promotion

The club will collaborate with local schools and community groups to promote Welsh language education and usage.

Club-hosted events and workshops will include Welsh language activities to encourage community participation.

Welsh-speaking players and staff will take part in initiatives to mentor and support individuals interested in learning Welsh.

Partnerships will be developed with Welsh language organizations to enhance the club's bilingual efforts.

5. Inclusivity & Support

The club will encourage and support players, coaches, and staff in learning and using Welsh.

Welsh-speaking members will be available to assist non-Welsh speakers in learning key phrases.

Resources for learning Welsh will be provided where feasible.

6. Compliance & Review

This policy will be reviewed annually to ensure effectiveness.

The club welcomes feedback to enhance bilingual efforts.

By adopting this policy, Llangefni Rugby Club embraces its Welsh identity while ensuring inclusivity for all members and actively contributing to the promotion of the Welsh language within the wider community.